

Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Addysg (Cyflynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyflynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau.

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
29 Mai 2024

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn yr ysgolion y maent yn eu cynnal, a sicrhau bod y cynllun yn cael ei fabwysiadu ganddyn nhw eu hunain a chan bob corff llywodraethu sy'n awdurdod derbyn ar ysgol a gynhelir yn eu hardal.
- 1.2 Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brospectws cyfansawdd, i'w benderfynu bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol.
- 1.3 Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelaau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn cywiro camgymeriad yn rheoliad 3 a rheoliad 5 o Rheoliadau 2005.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Rhan 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion.
- 3.2 Yn benodol, mae adran 86(1) o Ddeddf 1998 yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i rieni gael nodi ysgol a ffefrir ganddynt. Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy roi gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys manylion holl ysgolion ardal yr awdurdod lleol a sut i wneud cais. Ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn fel rheol, ac felly mae'r awdurdod lleol yn darparu ffurflenni cais. Ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn.
- 3.3 Mae adran 86(2) o Ddeddf 1998 yn datgan bod yn rhaid i'r awdurdod derbyn gynnig lle yn yr ysgol a ffefrir fel rheol, os oes lle ar gael. Gan yr awdurdod derbyn, felly, y mae'r ddyletswydd i gynnig y lle.
- 3.4 Mae adran 86(2A) o Ddeddf 1998 yn datgan y caiff trefniadau a wneir o dan is-adran (1) ganiatáu i riant plentyn nodi mwy nag un ysgol a ffefrir ganddynt. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol iddynt wneud hyn os, yn unol â chynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn a fabwysiadwyd neu a wnaed gan awdurdod lleol yn rhinwedd adran 89B o Ddeddf 1998, cynigir lle i'r plentyn mewn ysgol wahanol y mae'r riant hefyd wedi'i nodi'n ysgol a ffefrir.

- 3.5 Yn unol â hynny, mae adran 89B ac 89C o Ddeddf 1998 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chydlynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Yn benodol, mae adran 89B(1) o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir yn eu hardal. Mae adran 89C yn datgan y caniateir gwneud rheoliadau ynghylch cynnwys cynlluniau cymhwysol, gan gynnwys y dyletswyddau a osodir gan gynlluniau o'r fath ar awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn ysgolion.
- 3.6 Mae'r pwerau i wneud Rheoliadau 2024 wedi'u cynnwys yn adrannau 89B(1), (4) a (5), 89C(1), (2), (3), (4) a (5), a 92, 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf 1998. Gellid dirymu Rheoliadau 2024 yn sgil penderfyniad gan y Senedd h.y. drwy weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Diben Rheoliadau 2024 yw gwneud darpariaeth ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn disgyblion i ysgolion. Bwriad Rheoliadau 2024 yw sicrhau bod rhieni yn derbyn cynnig ar gyfer un lle ysgol.

Beth yw'r broblem rydym yn ceisio ei datrys?

- 4.2 Gall rhieni nodi unrhyw ysgol yr hoffent i'w plentyn ei mynychu fel ysgol a ffefrir. Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau sy'n galluogi rhieni plant yn eu hardal i nodi ysgol a ffefrir. Fel y nodwyd uchod, yn ymarferol mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy roi gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys manylion yr holl ysgolion a sut i wneud cais. Pan fo rhiant yn nodi dewis yn unol â'r trefniadau hynny, bydd awdurdodau derbyn fel rheol yn cydymffurfio oni bai bod yr ysgol yn llawn, ac os felly dilynir y meini prawf gorallw.
- 4.3 Fel yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, mae'r awdurdod lleol yn darparu ffurflenni cais ar gyfer yr ysgolion hyn. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnwys yn ei wybodaeth i rieni y meini prawf gorallw mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, sy'n rhoi syniad o'r flaenoriaeth a fyddai'n cael ei rhoi i geisiadau ar gyfer yr ysgolion hynny. Mae'r awdurdod lleol yn cynghori rhieni i wneud cais uniongyrchol i'r ysgolion hynny gan ddefnyddio ffurflen i'w darparu gan yr ysgol, a fydd fel rheol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r meini prawf gorallw penodol.
- 4.4 Ar hyn o bryd, mae gan bob awdurdod derbyn unigol ei drefniadau derbyn ei hun, er bod Cod Derbyn i Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn amlinellu dulliau cyffredin y mae'n rhaid i bob awdurdod derbyn gydymffurfio â nhw. Mae lle i amrywio, ond mewn gwirionedd, mae hyn yn tueddu i gael ei gyfyngu i feini prawf gorallw pob awdurdod derbyn.
- 4.5 Mae gan bob awdurdod derbyn ffurflen gais ar gyfer ei ysgolion. Os yw rhiant, felly, er enghraifft, yn dymuno gwneud cais am le mewn ysgol gymunedol ac

ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu ysgol sefydledig, bydd angen iddynt gwblhau dwy ffurflen gais. Ar ôl derbyn y ceisiadau, bydd pob awdurdod derbyn yn asesu eu ceisiadau yn erbyn eu meini prawf goralw penodol eu hunain ac yn blaenoriaethu pob ymgeisydd.

- 4.6 Unwaith y bydd yr ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu, bydd pob awdurdod derbyn yn anfon cynigion o lefydd i blant ar y dyddiad cynnig cyffredin. Gall rhai rhieni dderbyn nifer o lythyrau yn cynnig lle, felly, gan wahanol awdurdodau derbyn. Nid yw pob awdurdod lleol yn cyfyngu eu cynigion i'r prif leoliad a ffefrir, ac maent weithiau'n cynnig lle ym mhob ysgol a ffefrir sydd â lle. O dan y system bresennol, felly, nid yw'n anghyffredin i rai rhieni gael cynnig nifer o leoedd, ond gallai rhieni eraill beidio â chael unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion a ffefrir ganddynt.
- 4.7 Gan nad oes rheidrwydd ar rieni i gadarnhau pa gynnig y maent yn ei dderbyn, mae hyn yn atal nifer o leoedd ysgol rhag cael eu rhyddhau tan fis Medi bob blwyddyn pan ddaw'n hysbys pa ysgol y bydd y plentyn yn ei mynychu.
- 4.8 Yn aml, bydd rhieni yn apelio am leoedd mewn ysgolion a ffefrir, yn hytrach na derbyn cynnig o le mewn ysgol nad ydynt wedi'i nodi'n ysgol a ffefrir. Drwy wneud hynny, maent i bob pwrpas yn "dal gafael" ar le wrth gefn mewn ysgol. Mae hyn yn gostus ac yn cymryd llawer o amser i awdurdodau derbyn, ac mae'n tueddu i ymestyn y cyfnod ansicrwydd. Er y gofynnir fel rheol i rieni sydd wedi cael cynnig lle i benderfynu a ydynt am dderbyn y lle o fewn terfyn amser penodol, mae awdurdodau derbyn yn buddsoddi llawer iawn o amser yn cwrso'r ymatebion hyn, weithiau'n aflwyddiannus. Mae "dal gafael" ar leoedd yn atal y broses o ddyrannu lleoedd i'r rhai sydd heb le.
- 4.9 Efallai y bydd rhieni plant nad ydynt wedi cael cynnig lle mewn ysgol a ffefrir, ac sydd felly wedi derbyn lle mewn ysgol arall, yn cael gwybod wedyn bod lle iddynt wedi'r cwbl yn yr ysgol a ffefrir. Nid yn unig mae peidio â chael cynnig lle yn yr ysgol a ffefrir yn creu cythrwfl, ond hefyd yr anghyfleustra o orfod penderfynu wedyn ym mis Medi a ydynt am newid ysgol.
- 4.10 Yn absenoldeb cynllun trefniadau derbyn cydlynol, mae dyletswydd ar awdurdod derbyn i gynnig lle i bob ymgeisydd os oes un ar gael, p'un a yw awdurdodau derbyn eraill hefyd yn cynnig lle ai peidio.

Rheoliadau 2011

- 4.11 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi prospectws cyfansawdd blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am bob ysgol a gynhelir yn eu hardal. Rhaid cyhoeddi'r prospectws cyfansawdd cyn 1 Hydref yn y flwyddyn gyhoeddi a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn y dyddiad erbyn pryd y caiff rhieni nodi ysgol a ffefrir ganddynt.
- 4.12 Mae Rheoliadau 2011 yn nodi'r wybodaeth gyffredinol am yr ysgol y mae'n rhaid ei chyhoeddi yn y prospectws cyfansawdd.

4.13 Ochr yn ochr â chyflwyno trefniadau derbyn cydlynol rydym yn cynnig diwygio Rheoliadau 2011 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys yn ei brosbectws yr wybodaeth ganlynol:

- (a) disgrifiad byr o sut y gellir gwneud cais am le mewn ysgol o dan y cynllun cymhwysol, gan gynnwys y broses o wneud cais ac erbyn pa ddyddiad,
- (b) disgrifiad byr o pryd y rhoddir gwybod i rieni am gynigion o leoedd o dan y cynllun cymhwysol,
- (c) disgrifiad byr o pryd y bydd apelau yn cael eu clywed,
- (d) disgrifiad byr o sut y penderfynir ar geisiadau nad ydynt yn rhan o'r cylch derbyn arferol o dan y cynllun cymhwysol, a
- (e) copi o'r ffurflen gais gyffredin.

4.14 Nod y newid yw sicrhau bod gan rieni a disgyblion yr holl wybodaeth berthnasol ar sut i wneud cais am le o dan y trefniadau newydd.

Pa welliannau fydd y ddeddfwriaeth yn eu gwneud i'r sefyllfa bresennol?

4.15 O dan y trefniadau newydd, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn pob cais am dderbyniadau ar un ffurflen gais, er y gall rhieni hefyd enwi ysgolion nad yw'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn arnynt. Bydd rhieni yn gallu enwi mwy nag un ysgol yn eu dewis drefn. Unwaith y bydd ffurflenni wedi'u cyflwyno, bydd yr awdurdod lleol yn cyfeirio'r ceisiadau ar gyfer ysgolion nad yw'n awdurdod derbyn arnynt i gyrff llywodraethu'r ysgolion (sef yr awdurdod derbyn) dan sylw. Yna bydd y gyrff llywodraethu hynny yn llunio rhestr sy'n dangos yr holl geisiadau yn eu trefn gan ddefnyddio'r meini prawf gorallw lle mae mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael. Yna bydd y rhestrau hyn yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleol sy'n cyhoeddi un cynnig ar gyfer yr ysgol a ffefrir fwyaf.

4.16 Bydd Rheoliadau 2024 yn sicrhau bod rhieni yn derbyn cynnig o un lle yn unig, gan ystyried y dewisiadau a nodwyd. Mae hyn yn osgoi'r posibilrwydd y bydd rhai rhieni yn dal gafael ar nifer o gynigion, ond na fydd rhieni eraill yn cael unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion a ffefrir ganddynt. Bydd rhieni yn dal i allu apelio os nad ydynt wedi cael lle mewn ysgol yr oeddent yn ei ffafrio'n fwy na'r ysgol a gynigir.

4.17 Mae'r drefn yn sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cael cynnig lle yn brydlon ac yn lleihau'r cyfnod ansicrwydd i rieni a disgyblion wrth wneud cais am le mewn ysgol. Bydd yn helpu i ryddhau lleoedd ac, yn ei dro, bydd yn ei gwneud yn bosibl dyrannu lleoedd yn gyflymach i eraill. Bydd hyn yn lleihau'r cythrwfl i rieni nad ydynt wedi cael cynnig lle yn yr ysgol a ffefrir, a'r anghyfleustra o orfod newid ysgol wedyn ym mis Medi os bydd lle ar gael. Bydd hyn hefyd yn helpu i sefydlogi'r sgil-ffeithiau i awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn o ran rheoli lleoedd gwag a niferoedd derbyn disgyblion.

Sut bydd Rheoliadau 2024 yn galluogi'r sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

4.18 Bydd Rheoliadau 2024 yn galluogi awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn eraill i weithredu'n fwy effeithlon drwy helpu i leihau'r gost a'r amser a

ddefnyddir yn sgil achosion o ddal gafael ar fwy nag un cynnig ysgol.

Beth yw'r risgiau os na wneir Rheoliadau 2024?

4.19 Os na wneir Rheoliadau 2024, bydd rhai rhieni yn parhau i ddal gafael ar nifer o gynigion o leoedd, ond rhieni eraill efallai yn cael dim. Os na wneir diwygiadau i Reoliadau 2011, efallai na fydd gan rieni a disgyblion yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud cais am le mewn ysgol.

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar Reoliadau 2024 rhwng 28 Tachwedd 2023 a 23 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe'i tynnwyd i sylw awdurdodau lleol, awdurdodau derbyn, ysgolion ac awdurdodau'r esgobaeth. Cafwyd 22 ymateb. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Cyflynu trefniadau derbyn i ysgolion | LLYW.CYMRU](#). Mae'r prif bwyntiau wedi'u cynnwys isod.

5.2 Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (77%) yn cytuno â Rheoliadau 2024 ar gyfer cyflynu trefniadau derbyn i ysgolion. Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn y bydd y cynnig yn symleiddio'r broses dderbyn, ac y gall hynny yn ei dro leihau'r amser a'r ymdrech y mae rhieni ac awdurdodau derbyn yn rhoi i'r mater. Mae rhai awdurdodau lleol llai eu maint yn rhagweld cynnydd yn eu llwyth gwaith, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes problemau gorolw.

5.3 Cadarnhaodd mwyafrif yr ymatebwyr (73%) y dylai Rheoliadau 2024 fod yn berthnasol i bob awdurdod lleol, gyda rhai'n nodi y byddai gwneud y gofyniad yn berthnasol i bob awdurdod lleol yn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Nododd rhai y gallai gwneud y gofynion yn berthnasol i rai awdurdodau lleol yn unig beri dryswch, yn enwedig i rieni/gofalwyr pe byddent yn dymuno symud dros y ffin neu i ardaloedd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd 18% o'r ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylai Rheoliadau 2024 fod yn berthnasol i rai awdurdodau lleol yn unig. Awgrymwyd y dylai'r gofynion fod yn berthnasol i'r ardaloedd hynny lle mae gormod o alw am leoedd mewn ysgolion yn unig, gan y teimlir na fyddent o fudd i'r ardaloedd heb y problem honno.

5.4 Roedd bron i hanner yr ymatebwyr o'r farn y bydd y Rheoliadau 2024 arfaethedig yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol. Er ei bod yn anodd mesur beth fyddai'r costau ychwanegol hynny, awgrymodd ambell awdurdod lleol y byddai hyn yn arwain at yr angen am adnoddau ychwanegol. Cydnabuwyd, fodd bynnag, er y byddai cyflwyno system symlach newydd ar gyfer rhai awdurdodau lleol yn cynyddu llwyth gwaith ar ddechrau'r cylch derbyn, y byddai hyn yn cael ei wrthbwysu rywfaint ar ddiwedd y broses gyda llai o waith yn gysylltiedig â chydlynu cynigion lluosog i rieni. Awgrymwyd hefyd fod trefniadau cydlynol yn cyflymu'r broses dderbyn ac yn rhyddhau amser ac adnoddau gwerthfawr mewn ysgolion.

5.5 Ar ben hynny, awgrymodd bron i hanner yr ymatebwyr na fyddai arbedion costau ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni a gofalwyr. O'r rhai a atebodd

fel arall, dywedodd rhai y bydd arbedion o ran amser a chostau drwy leihau nifer y paneli apêl diangen a pheidio â gorfod gofyn droeon am benderfyniadau.

- 5.6 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid gofyn i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydgysylltiedig yr awdurdod lleol bob blwyddyn yn ei brosbectws cyfansawdd. Awgrymwyd y byddai hyn yn sicrhau bod rhieni yn deall y broses yn iawn.
- 5.7 Ni wnaed unrhyw newidiadau i Reoliadau 2024 o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

6.1 Ystyrir dau opsiwn:

- *cadw'r status quo – dim gofyniad i awdurdodau derbyn gydlynu eu trefniadau derbyn.*
- *gwneud Rheoliadau 2024 – gwneud Rheoliadau 2024 er mwyn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn.*

Opsiwn 1: cadw'r status quo – dim gofyniad i awdurdodau derbyn gydlynu eu trefniadau derbyn.

- 6.2 Byddai cadw'r status quo yn golygu nad yw'n ofynnol i awdurdodau derbyn gydlynu eu trefniadau derbyn. Er nad oes unrhyw beth yn atal awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu rhag mynd ati o'u gwirfodd i ddatblygu cynllun i gydlynu trefniadau derbyn (mae llawer yn gwneud hynny ar sail wirfoddol), mae peidio â'u gorfodi i wneud hyn yn golygu bod rhai rhieni, mewn rhai awdurdodau, yn dal gafael ar fwy nag un cynnig ysgol, sy'n golygu nad yw rhieni eraill efallai yn cael cynnig lle ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion a ffefrir ganddynt.
- 6.3 Mae'r sefyllfa hon yn ymestyn y cyfnod ansicrwydd i rai teuluoedd ac awdurdodau derbyn. Gan nad oes rheidrwydd ar rieni i gadarnhau pa gynnis y maent yn ei dderbyn, mae hyn yn atal nifer o leoedd ysgol rhag cael eu rhyddhau tan fis Medi bob blwyddyn pan ddaw'n hysbys pa ysgol y bydd y plentyn yn ei mynychu. Er y gofynnir fel rheol i rieni sydd wedi cael cynnig lle i benderfynu a ydynt am dderbyn y lle o fewn terfyn amser penodol, mae awdurdodau derbyn yn buddsoddi llawer iawn o amser ac adnoddau yn cwrso'r ymatebion hyn, weithiau'n aflwyddiannus. Mae "dal gafael" ar leoedd yn atal y broses o ddyrannu lleoedd i'r rhai sydd heb le.
- 6.4 Ni fyddai Opsiwn 1 yn adlewyrchu adborth gan y mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar Reoliadau 2024 a gefnogodd y cynnig ar gyfer trefniadau derbyn cydlynol.

Opsiwn 2: gwneud Rheoliadau 2024 – gwneud Rheoliadau 2024 er mwyn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn.

- 6.5 Mae gwneud Rheoliadau 2024 yn golygu y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion y maent yn eu cynnal. Bydd angen iddynt sicrhau bod y cynllun yn cael ei fabwysiadu ganddyn nhw eu hunain a chan bob corff llywodraethu sy'n awdurdod derbyn ar ysgol a gynhelir yn eu hardal. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt gynnwys yn eu prospectws cyfansawdd grynodedb o gynllun cydlynol yr

awdurdod lleol, i'w benderfynu bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol.

- 6.6 Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gynnig lleoedd i fwy o ddisgyblion yn brydlon ac yn lleihau'r cyfnod ansicrwydd i rieni a disgyblion wrth wneud cais am le mewn ysgol. Bydd yn helpu i ryddhau lleoedd ac, yn ei dro, bydd yn ei gwneud yn bosibl dyrannu lleoedd yn gyflymach i eraill. Bydd yn lleihau'r arfer o atal lleoedd rhag cael eu rhyddhau, a fydd yn digwydd fel arall tan fis Medi bob blwyddyn pan ddaw'n hysbys pa ysgol y bydd y plentyn yn ei mynychu.
- 6.7 Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn teimlo y bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i symleiddio'r trefniadau derbyn, gyda rhai yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull gweithredu cyson ledled Cymru. Er bod rhai yn cydnabod y potensial i leihau'r amser a'r ymdrech a dreulir gan rieni ac awdurdodau derbyn yn cydlynu trefniadau derbyn, mae rhai awdurdodau lleol llai yn awgrymu y byddai eu llwyth gwaith yn cynyddu gan nad oes ganddynt unrhyw broblemau goralw ar hyn o bryd yn eu hysgolion.
- 6.8 Roedd 77% o'r ymatebwyr yn cytuno â Rheoliadau 2024 ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ysgolion a 73% yn cadarnhau y dylai'r rheoliadau fod yn berthnasol i bob awdurdod lleol.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: cadw'r status quo – dim gofyniad i awdurdodau derbyn gydlynu eu trefniadau derbyn.

- 7.1 Er na fyddai cadw'r status quo yn ychwanegu unrhyw bwysau ariannol, byddai cyfle yn cael ei gollu i wneud arbedion effeithlonrwydd ar lefel awdurdod lleol ac i rai ysgolion o beidio â chyflwyno gofyniad i gydlynu trefniadau derbyn.
- 7.2 Ar hyn o bryd, lle nad yw awdurdod derbyn mewn awdurdod lleol wedi mabwysiadu cynllun derbyn, mae'r awdurdod lleol yn buddsoddi llawer o amser ac adnoddau yn cwrso ymatebion gan rieni sydd wedi cael nifer o gynigion ar gyfer lleoedd mewn ysgolion.

Opsiwn 2: gwneud Rheoliadau 2024 – gwneud Rheoliadau 2024 er mwyn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynllun cymhwysol ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn.

- 7.3 Yn ogystal â manteision lleihau'r cyfnod ansicrwydd i rieni a disgyblion, gwyddom yn sgil trafodaethau gydag aelodau o Grŵp Swyddogion Derbyn i Ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru y bydd cydlynu trefniadau derbyn yn arwain at arbed amser ac adnoddau i awdurdodau lleol sy'n cwrso ymatebion gan rieni sydd wedi cael mwy nag un cynnig am le mewn ysgol. Fodd bynnag, er bod hon yn neges debyg i'r hyn gafwyd gan rai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar Reoliadau 2024, awgrymodd ambell awdurdod lleol llai y byddai hyn yn cynyddu baich gweinyddol ac yn gofyn am adnoddau ychwanegol i weinyddu cynllun derbyn cydlynol.

- 7.4 Ni chawsom ddigon o wybodaeth i'n galluogi i gynhyrchu amcangyfrif cadarn o arbedion blynyddol cyfanredol ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol na chostau ychwanegol a allai fod yn berthnasol mewn rhai eraill. Cydnabuwyd, fodd bynnag, er y byddai cyflwyno system symlach newydd ar gyfer rhai awdurdodau lleol yn cynyddu llwyth gwaith ar ddechrau'r cylch derbyn, y byddai hyn yn cael ei wrthbwysu rywfaint ar ddiwedd y broses gyda llai o waith yn gysylltiedig â chydlynu cynigion lluosog i rieni. Awgrymwyd hefyd fod trefniadau cydlynol yn cyflymu'r broses dderbyn ac yn rhyddhau amser ac adnoddau gwerthfawr mewn ysgolion.
- 7.5 Byddem yn disgwyl rhywfaint o gost ymlaen llaw i'r awdurdodau lleol hynny sy'n sefydlu cynllun cydlynol am y tro cyntaf a bod rhywfaint o waith ychwanegol i awdurdodau lleol ar ddechrau'r cylch derbyn wrth gydlynu ceisiadau am leoedd mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan yr awdurdodau hynny sydd eisoes yn ymgymryd â threfniadau derbyn cydlynol yn awgrymu bod yr arbedion amser ac adnoddau yn cael eu gwneud o ganlyniad i gyhoeddi un cynnig yn unig, gan fod hyn yn arwain at lai o gwrso cynigion a llai o apelïadau posibl gan y rhieni hynny a fyddai fel arall heb gynnig am unrhyw un o'u dewisiadau.
- 7.6 Gellir dod o hyd i adrannau 1 ac 8 o asesiad effaith integredig y cynnig hwn ar gyfer newid isddeddfwriaeth yma: [Cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion | LLYW.CYMRU](#)

8. **Asesiad o'r Gystadleuaeth**

- 8.1 Ni wnaed asesiad o'r gystadleuaeth gan nad yw'r cynnig yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. **Adolygiad ar ôl gweithredu**

- 9.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad Rheoliadau 2024 i sicrhau eu bod yn cael yr effaith a fwriadwyd. At hynny, bydd gweithredu unrhyw newidiadau i'r Cod Derbyn i Ysgolion i adlewyrchu Rheoliadau 2024 yn cael ei fonitro'n agos.
- 9.2 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydlynu'n rheolaidd â Grŵp Swyddogion Derbyn i Ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sydd â chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol ac awdurdod esgobaethol yng Nghymru. Bydd yr ymgysylltiad parhaus hwn yn cynnwys adborth ar weithredu Rheoliadau 2024.